# Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir

# 15 Mai 2017

## SL(5)100 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

### Y weithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau yn dirymu ac yn ailddatgan gyda gwelliannau ddarpariaethau Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016. ("Rheoliadau 2016"). Mae Rheoliadau 2016 yn cydgrynhoi ac yn diweddaru offerynnau cynharach a oedd yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 85/337/EEC ("Cyfarwyddeb 1985) ar asesu effaith rhai prosiectau cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd mewn cysylliad â chynllunio gwlad a thref yng Nghymru.

Cafodd Cyfarwyddeb 1985 ei disodli gan Gyfarwyddeb 2011/92/EU ("y Gyfarwyddeb") Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 13 Rhagfyr 2011 ar asesu effeithiau rhai prosiectau cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd. Mae'r Gyfarwyddeb wedi'i diweddaru gan Gyfarwyddeb yr EU 2014/52/EU.

Mae'r Rheoliadau yn gosod gofynion gweithdrefnol mewn perthynas â rhoi caniatâd cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**Rhiant-Ddeddfau**: Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972; Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

**Fe'u gwnaed ar**: 20 Ebrill 2017

**Fe'u gosodwyd ar**: 20 Ebrill 2017

**Dyddiad dod i rym**: 16 Mai 2017